

Ymatebion Holiadur Hwb / Teams y Rhieni



Cwestiynau gan rieni a gwarchodwyr	Ymatebion yr ysgol
Os nad ydych chi wedi llwyddo i fewngofnodi, beth yw'r heriau sy'n eich wynebu?	
Dwi methu ei lawrlwytho.	Gellir lawrlwytho'r ap drwy ddyfeisiau Apple neu Android. Sicrhewch fod gennych ddigon o le storio i lawrlwytho'r ap.
Does dim angen e arnai.	Bydd 'Teams' yn cael ei ddefnyddio gan bob grŵp blwyddyn yn yr ysgol.
Does gennym ni ddim argraffydd.	Nid oes angen i chi argraffu'r gwaith sydd wedi'i osod ar gyfer eich plentyn. Gellir ychwanegu lluniau o'r gwaith a gymerir ar eich dyfais a'u lanlwytho i'r aseiniadau heb orfod argraffu'r dogfennau.
Pa gymorth hoffech chi ynghylch Teams / Hwb?	
Eglurhad ynglŷn ag os yw'n cael ei ddefnyddio yn gyson a nid dim ond ar gyfer cyfnodau hunanynysu.	Bydd, bydd y plant yn defnyddio Hwb a Teams yn eu gwersi i ddatblygu eu sgiliau. Mae gwaith cartref bellach yn cael ei ddsbarthu drwy blatfform Teams hefyd.
Byddai galluogi'r swyddogaeth 'sgwrsio' sy'n bodoli ar Teams caniatáu i rieni anfon gwaith yn uniongyrchol at yr athro a chysylltu â nhw'n uniongyrchol gydag unrhyw gwestiynau.	O dan 'Posts', gallwch ofyn cwestiynau am y gwaith a osodwyd gan yr athrawon. Dim ond pan fyddwn ar alwadau ffrydio byw y byddwn yn defnyddio'r adran sgwrsio. Gellir gwneud unrhyw ymholiadau am unrhyw fater arall ar wahân i'r gwaith dosbarth drwy e-bost neu ffonio swyddfa'r ysgol. Sicrhewch fod y gwaith yn cael ei lanlwytho drwy'r aseiniad i sicrhau mai dim ond y disgybl, y rhiant a'r athro sy'n gallu gweld y gwaith (bydd gwaith y plant wedyn yn breifat, nid yn gyhoeddus).
Petai cyfnod clo arall, byddai gwersi dyddiol trwy Teams a'r cyfle i 'ddala lan' gyda'r athro a'r disgyblion wyneb yn wyneb yn ddefnyddiol.	Cynigiwyd hyn i blant sydd wedi gorfod hunanynysu am bythefnos fel grŵp blwyddyn. Roedd yn llwyddiannus iawn.
Dim ond drwy fy ffôn mae gen i fynediad i Teams ac felly os rydym yn ynysu, bydd angen i'r plant gymryd eu tro i gwblhau'r gwaith gan mai dim ond sgrîn fach sydd gennym i weithio arni. Hefyd, nid yw rhai dolenni'n agor ar ffôn symudol.	Lle bo modd, bydd staff yn gosod fersiwn pdf o'r gwaith hefyd i sicrhau y gellir ei agor! Mae croeso i blant wneud eu gwaith ar bapur a gellid lanlwytho lluniau o'r gwaith i aseiniadau'r plant. Bydd hyn yn cyfyngu ar faint o blant sydd angen y ddyfais ar unwaith. Oes ydy'r dosbarth neu'r flwyddyn yn hunanynysu, wedyn mae'r ysgol yn barod i ddarparu gliwiadur os oes problem dechnolegol gyda'r disgybl/teulu.
Fideos yn esbonio gwaith a nodir yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Mae llythyr gyda'r dolenni i diwtorialau wedi'i bostio'n flaenorol drwy Parentmail ond gallwch hefyd gael mynediad i'r tiwtorialau o wefan yr ysgol neu drwy ddilyn y ddolen ganlynol; https://sites.google.com/hwbcymru.net/hwb-a-teams-sant-curig/home Gweler y canlynol am diwtorialau Saesneg; https://sites.google.com/hwbcymru.net/hwb-and-teams-sant-curig/home
Mae lanlwytho'r gwaith yn broblem. Nid yw'r gwaith ar-lein yn gweithio, byddwn yn croesawu copiâu caled fel ein bod yn gallu parhau i gyflwyno'r gwaith.	O ganlyniad i'r Pandemig presennol, rydym yn cyfyngu ar gyfnewid adnoddau â llaw ac felly bydd 'Teams' yn cael ei ddefnyddio i gyhoeddi gwaith cartref.
Diweddariadau/Hysbysiadau pan mae gwaith cartref yn cael ei osod ar Teams, a chanllawiau ar sut i lanlwytho gwaith plant ar ôl iddynt ei gwblhau.	Ar ôl i chi lawrlwytho'r ap, gallwch osod eich ffôn i dderbyn hysbysiadau pan fydd aseiniadau'n cael eu postio.

	<p>Ewch i diwtorialau ar sut i gwblhau aseiniadau ar wefan yr ysgol neu drwy ddilyn y ddolen ganlynol; https://sites.google.com/hwbcymru.net/hwb-a-teams-sant-curig/home</p>
<p>Cyfieithu achlysurol os oes angen. Canllaw cam wrth gam - sut i fewngofnodi a ble i ddod o hyd i'r gwaith.</p>	<p>Ewch i'r dudalen we ganlynol i weld y canllawiau; https://sites.google.com/hwbcymru.net/hwb-a-teams-sant-curig/home</p>
<p>Dydw i ddim yn siŵr os yw Bl.1 yn dal i ddefnyddio Teams. Oes disgwyl gwneud y gwaith cartref a bagiau llyfrau? A oes athro yn monitro Hwb ar gyfer y dosbarth?</p>	<p>Rhoddir gridiau gwaith cartref ar ddechrau bob hanner tymor. Yn y Cyfnod Sylfaen, dosberthir y bagiau llyfrau neu dasgiau iaith bob dydd Gwener i'w cwblhau erbyn y dydd Mercher canlynol. Bydd, bydd yr athro dosbarth yn monitro tudalen Hwb a 'Teams' y dosbarth.</p>
<p>Efallai fideo bach i ddangos camau'r ap. Mwy o gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio'r rhaglen apiau/timau.</p>	<p>Dewch o hyd i gyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r ap ar wefan ein hysgol, neu drwy ddilyn y ddolen ganlynol; https://sites.google.com/hwbcymru.net/hwb-a-teams-sant-curig/home</p>
<p>Nid yw Teams yn hawdd i'w ddefnyddio a darganfod ble i ddod o hyd i bethau unwaith y byddwch wedi mewngofnodi. Lleoli cynnwys - er enghraifft rwy'n deall bod llawer o lyfrau Cymraeg, ond alla i ddim dod o hyd iddyn nhw.</p>	<p>Rydym yn gwerthfawrogi hyn. Mae'r plant yn cael gwersi wythnosol ar 'Teams' ac felly'n gwybod sut i gael gafael ar y gwaith eu hunain. I ddarganfod llyfrau Cymraeg, dilynwch y camau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mewngofnodwch i Hwb • Pwyswch yr eicon J2easy • Dewiswch 'ffeiliau' • Ewch i 'ffeiliau wedi'u rhannu' ar yr ochr chwith • Cliciwch ar ffolder 'Ysgol-Sant-Curig' a byddwch yn dod o hyd i amrywiaeth o lyfrau, apiau a fideos Cymraeg a Saesneg.
<p>Dydw i ddim yn gwybod sut i ddefnyddio Teams.</p>	<p>Ewch i'r dudalen we ganlynol; https://sites.google.com/hwbcymru.net/hwb-a-teams-sant-curig/home</p>
<p>Doeddwn i ddim yn sylweddoli bod fy merch i fod i weithio drwy'r daflen waith cartref yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Doeddwn i ddim yn teimlo bod dyddiad clir am dyddiad cyflwyno'r dasg. Doedd dim adborth i'r rhieni chwaith. Ydw i fod i adael fy merch wneud hynny? Dydw i ddim yn defnyddio Teams i wirio unrhyw beth, rwy'n gadael hynny i'm merch. Ydw i fod i gyfathrebu drwy Teams hefyd fel rhiant?</p>	<p>Mae 'dyddiad cau' i bob aseiniad. Rhoddir gridiau gwaith cartref ar ddechrau bob hanner tymor. Pan rhennir aseiniad newydd, caiff ei arddangos o dan yr adran 'Posts' ar Teams. Mae'n bosib gosod eich ffôn i dderbyn hysbysiadau pan roddir aseiniadau newydd. Rhoddir adborth ar ddiwedd dyddiad cau yr aseiniad.</p>
<p>Weithiau mae'r cyfarwyddiadau ar y darnau gwaith cartref yn anneglur ac nid ydynt yn gryno.</p>	<p>Mae'r athrawon yn esbonio popeth i'r plant yn y dosbarth cyn i'r tasgiau gael eu rhoi. Rhoddir gwaith cartref gydag esboniad Saesneg hefyd. Os ydych yn ansicr o dasg, gofynnwch drwy'r adran 'Posts' ar 'Teams' y dosbarth.</p>
<p>Hoffwn dderbyn rhagor o wybodaeth fel rhiant am yr hyn y mae athrawon yn disgwyl i'r plant ei gwblhau bob wythnos.</p>	<p>Gosodir gwaith cartref fel 'grid gwaith cartref' unwaith bob hanner tymor. Bydd y plant yn cwblhau'r tasgiau dros yr hanner tymor. Mae'r gwaith yn cael ei rhannu ar y dudalen aseiniadau. Cyfnod Sylfaen - Rhoddir bagiau darllen / tasgiau iaith bob dydd Gwener ac i'w cyflwyno ar y dydd Mercher canlynol. Adran Iau – Dosberthir bagiau llyfrau / llyfrau ar-lein (ar ôl gwyliau'r Nadolig) bob pythefnos. Llyfrau i'w dychwelyd yn ôl i'r ysgol ar ddydd Llun yr ail wythnos er</p>

	mwyn caniatáu i'r bagiau diheintio cyn cael eu dosbarthu eto ar y dydd Gwener.
Llythyr 'Sut i' yn esbonio'r camau sydd angen eu cymryd.	Mae llythyr gyda'r dolenni i diwtorialau wedi'i bostio'n flaenorol drwy Parentmail ond gallwch hefyd gael mynediad i'r tiwtorialau ar wefan yr ysgol neu drwy ddilyn y ddolen ganlynol; https://sites.google.com/hwbcymru.net/hwb-a-teams-sant-curig/home
Ydych chi wedi profi unrhyw anhawsterau wrth ddefnyddio Teams?	
Ydw, weithiau nid yw'n bosib mewngofnodi. Mae'n llawer i ofyn i rieni fewngofnodi a cheisio monitro'r gwaith a nodi'r hyn sydd ei angen, yn ogystal â'r bagiau llyfrau ac ati, yn enwedig os yw rhieni'n gweithio yn ystod Covid. Mae pethau'n fwy prysur nag arfer. Mae bagiau llyfrau a thafleuni gwaith cartref yn haws gyda phlant ifanc gan nad oes ganddynt lawer o sgiliau TGCh a llythrennedd.	Mae llawer ohonom yn rhieni hefyd a gallwn gydymdeimlo â hyn. Defnyddir 'Teams' a Hwb yn y dosbarth er mwyn datblygu sgiliau digidol y plant petawn yn gorfod cau fel ysgol eto. Os felly, bydd yr holl gyswllt a wneir rhwng y plant a'r staff wedyn ar-lein - drwy Hwb a Teams. Gobeithio y bydd ymarfer cyson yn arwain at brofiad cadarnhaol os bydd rhaid i grŵp blwyddyn hunanyysu.
Ydw, dwi'n ansicr o sut i ddod o hyd i waith cartref ac aseiniadau fy mhleintyn.	Evch i'r dudalen we ganlynol i gael mynediad i diwtorialau; https://sites.google.com/hwbcymru.net/hwb-a-teams-sant-curig/home
Rydym wedi cael problemau mewngofnodi, hefyd ar adegau, nid yw'r dolenni i ddod o hyd i'r gwaith cartref yn gweithio sy'n golygu na allwn gael mynediad i'r gwaith.	Mae croeso i chi gysylltu â'r athro drwy 'Posts' os yw hyn yn digwydd a gellir rhoi dolen newydd / newid yn y math o ddogfen. Diolch.
Ydw - anhawster uwchlwytho a golygu dogfennau gyda Cromebook.	Mae croeso i chi wneud y gwaith ar bapur a lanlwytho'r llun yn hytrach na'r ddogfen wreiddiol. Rydym yn sylweddoli y gall technoleg fod yn beth gwych ond hefyd yn gallu dod ag anawsterau ar adegau. Mae'r staff yn hyblyg o ran y ffordd y caiff y gwaith ei 'drosglwyddo' yn electronig yn ystod y Pandemig.
Ydw, wrth lwytho gwaith cartref ar adegau ac nid oeddwn yn gallu dod o hyd i'r aseiniad gwaith cartref blaenorol.	Bydd yr holl aseiniadau blaenorol o dan ardal 'assignments' ar dudalen 'Teams' eich plentyn.
Weithiau nid yw'n glir a ydym i fod i ychwanegu gwaith ar Teams neu ar Hwb. Fe wnaethom gyflwyno gwaith trwy Hwb, ond nid ydym wedi cael unrhyw adborth. Hefyd mae grid gwaith cartref diweddar wedi'i ychwanegu at Teams ond nid fel aseiniad felly dydw i ddim yn siŵr ble i ychwanegu gwaith yn breifat os nad yw'r athro yn edrych ar Hwb fel y soniwyd eisoes.	Gosodir gridiau gwaith cartref fel 'aseiniadau' er mwyn i chi gwblhau'r gwaith. Fel y dywedwch, nid yw gwaith a lanlwythwyd i 'Posts' yn breifat. Mae'n bwysig nodi, pan roddir aseiniad, ei fod hefyd yn cyhoeddi hyn drwy Posts. Fodd bynnag, mae angen 'trosglwyddo' y gwaith cartref drwy'r aseiniad (assignments) yn hytrach na thrwy 'Posts'.
Dwi'n gallu agor Teams/Hwb, uwchlwytho lluniau a theipio a darllen negeseuon. Ond, ni allaf agor aseiniadau. Cyn gynted ag y byddaf yn clicio arnynt i agor, mae Teams yn cau lawr.	Weithiau mae angen diweddariadau. Os bydd hyn yn parhau i fod yn broblem ac nid yw eich plentyn yn derbyn y gwaith, yna cysylltwch â'r ysgol.
Dwi'n gweld Teams yn gymhleth ac nid yw'n drefnus iawn wrth gyfeirio at sut i ddod o hyd i bopeth.	Gellir dod o hyd i'r gwaith o dan 'aseiniadau / assignments'. Mae cwestiynau sy'n gysylltiedig â gwaith o dan 'Posts'. Pwyswch ar y ddolen ganlynol i gael arweiniad a mynediad at diwtorialau https://sites.google.com/hwbcymru.net/hwb-a-teams-sant-curig/home
Weithiau mae'n rhaid i ni argraffu a chwblhau tasgau oherwydd doedd dim modd agor y dogfennau.	Os cewch unrhyw drafferth gyda agor dogfennau, yna mae croeso i chi gysylltu â'r athro drwy'r adran 'Posts' ar dudalen y 'Teams' y dosbarth. Gellir dosbarthu fersiwn pdf o'r gwaith hefyd.
Oes gennych chi unrhyw gwestiwn neu sylwadau ynghylch defnyddio Teams neu Hwb?	

<p>Byddai'n wych pebawn y gallu cael neges wedi'i anfon drwy e-bost neu Parentmail os oes eitemau newydd yn cael eu rhoi ar Teams - ee pan fydd gan y plant grid newydd i'w gwblhau.</p>	<p>Rhoddir gridiau gwaith cartref ar ddechrau bob hanner tymor. Pan roddir aseiniad newydd, caiff ei arddangos o dan yr adran 'Posts' ar 'Teams'. Mae'n bosib gosod eich ffôn i dderbyn hysbysiadau pan roddir aseiniadau newydd drwy glicio ar lun y gloch ar dop y dudalen 'Posts'.</p>
<p>A yw'r gwaith a roddir i mewn drwy'r ardal aseiniadau ar Hwb/Teams yn cael ei farcio / oes adborth yn cael ei rhoi, neu a ddylid lanlwytho'r holl waith i ddarn 'Posts' ar Teams i'r athro wneud sylwadau arno?</p>	<p>Bydd angen cyflwyno gwaith drwy'r dudalen 'aseiniadau / assignments'. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond chi a'r athro sy'n gweld ac yn cael mynediad at y gwaith yr rydych wedi'i lanlwytho. Rhoddir adborth ar ôl i'r gwaith cael ei gyflwyno / pan mae dyddiad cyflwyno'r aseiniadau wedi dod i ben. Mae'n bwysig nodi y bydd gwaith yn cael ei farcio pan gaiff ei drosglwyddo drwy'r aseiniad gan fod hyn yn breifat rhwng y disgybl a'r athro. Ni fydd gwaith a gyflwynir o dan 'Posts' yn cael ei farcio mor drylwyr gan ei fod yn ardal gyhoeddus.</p>
<p>Pe bai cyfnod clo arall, byddai gwersi drwy Teams neu cyfle i'r plant 'dala lan' gyda'r athro a'r disgyblion eraill bob dydd i gadw mewn cysylltiad wyneb yn wyneb yn ddefnyddiol.</p>	<p>Mae Blwyddyn 6 eisoes wedi bod yn hunanynysu ac roedd gwersi ffrydio byw dyddiol a chyfle i 'ddala lan' fel dosbarth. Bu hyn yn llwyddiannus iawn.</p>
<p>Hoffwn bod opsiwn o anfon gwaith ein merch yn uniongyrchol at yr athro fel nad yw'r gwaith ar gael i bob rhiant/disgybl arall ei weld.</p>	<p>Os byddwch yn atodi'r gwaith i'r aseiniad, dim ond chi a'r athro fydd yn gallu gweld y gwaith. Dim ond yr ardal 'Posts' sy'n gyhoeddus i'r disgyblion/rhieni eraill.</p>
<p>Sut mae cyflwyno'r gwaith – ydy'r ysgol yn derbyn y gwaith trwy'r dolenni neu a oes angen i ni sgrinio'r atebion a'u e-bostio at yr athro?</p>	<p>Rydych chi'n cyflwyno'r gwaith i'r aseiniad. Bydd adran 'ychwanegu gwaith' lle gallwch lanlwytho'r gwaith. Gallwch hefyd dynnu llun o'r gwaith a'i atodi yn y maes yma.</p>
<p>A yw'r wybodaeth am bob unigolyn yn cael ei rhannu â'u hysgolion yn unig?</p>	<p>Dim ond aelodau o dudalen Tîm y dosbarth sydd â mynediad i'r 'Posts'. Dim ond rhwng y disgybl dan sylw a'i athro / athrawon y mae gwaith yn cael ei rhannu.</p>
<p>Awgrymiadau gwahanol i helpu plant ag anghenion dysgu ychwanegol.</p>	<p>Trefnir hyn gan yr athro dosbarth. Mae athrawon yn gwahaniaethu gwaith ac yn sicrhau bod y plant yn cael her sydd o fewn eu cyrraedd. Cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol os ydych yn credu bod lefel y gwaith yn rhy anodd. Gwylwch y ddolen ganlynol ar sut i gefnogi eich plentyn ymhellach; Defnyddio meddalwedd Microsoft i gynorthwyo darllen a ysgrifennu - YouTube</p>
<p>Hoffwn dderbyn ychydig mwy o ymateb/adborth i'r gwaith cartref wrth ei gyflwyno. Rwy'n credu y bydd hyn yn annog fy mhleintyn i wneud mwy!</p>	<p>Diolch. Nodwyd hyn a chaiff ei drafod gyda'r staff yn ystod cyfarfodydd staff. Mae'n bwysig nodi y bydd gwaith yn cael ei farcio pan gaiff ei drosglwyddo drwy'r ardal 'aseiniadau' gan fod hyn yn breifat rhwng y disgybl a'r athro. Ni fydd gwaith a gyflwynir o dan 'Posts' yn cael ei farcio mor drylwyr gan ei fod yn gyhoeddus.</p>